# DAVIES, DAVID STEPHEN (1841 - 1898), pregethwr, dirwestwr, llenor, a gwladfawr

**Enw:** David Stephen Davies
**Dyddiad geni:** 1841
**Dyddiad marw:** 1898
**Priod:** G. Davies (née Stephens)
**Rhiant:** John Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pregethwr, dirwestwr, llenor, a gwladfawr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd; Teithio
**Awdur:** Richard Bryn Williams

Ganwyd yn Brynffynnon, Plasmarl, Abertawe, 14 Chwefror 1841, mab i John Davies, gweinidog Mynydd-bach, Llangyfelach. Ar farwolaeth ei dad wrth ei waith fel arolygydd glofa yn 1854, gorfu i'r bachgen adael ei ysgol a mynd i weithio ar agerbeiriant yn Aberdâr. Oherwydd y streic, ymfudodd i'r Unol Daleithiau yn 1857. Dechreuodd bregethu yn Holidaysburg, addysgwyd ef yn y Wyoming Seminary, Kingston, a'r Western Theological Seminary, Allegany, a chafodd ei ordeinio yn weinidog Emmett ac Ixonia yn 1862; priododd Miss G. Stephens, Wisconsin, yr un flwyddyn. Symudodd i Dentor yn 1864, yna i Centreville, ac i Efrog Newydd yn 1872. Ffurfiodd gwmni ymfudol a phrynwyd y llong *Rush* a'i hanfon gyda 29 o ymfudwyr i'r Wladfa ym Mhatagonia, ond aeth y rheini ar ch al yn Montevideo. Casglodd fintai arall yn cynnwys 42 o ymfudwyr, ac yntau yn eu plith, yn berchenogion y llong *Electric Spark* o 200 tunnell, a'r llwyth o 250 o dunelli ac yn cynnwys offer amaethu; ond aeth y llong yn ddrylliau ar draeth Brazil, collwyd y llwyth, a thrwy fawr drafferth y cyrhaeddodd yr ymfudwyr i'r Wladfa mewn tlodi. Aeth y sôn eu bod wedi boddi i'r Unol Daleithiau, a thraddodwyd pregeth goffa a chyhoeddwyd ysgrifau coffa yno er cof am D. S. Davies. Ymhen pedwar mis dychwelodd o'r Wladfa i Gymru, a derbyniodd wahoddiad i fugeilio Ebeneser, Bangor, yn 1875 fel olynydd i Robert Thomas ('ap Vychan'). Aeth i gyrchu ei deulu o Efrog Newydd, a threfnodd yno i long arall, y *Lucerne*, fynd allan i'r Wladfa, ond ni bu llwyddiant i'w mordaith hithau ychwaith. Symudodd i fugeilio eglwys Union Street, Caerfyrddin, yn 1886, a bu yno hyd ei farwolaeth ar 29 Hydref 1898. Bu'n olygydd *Y Celt*, a chyhoeddodd rai llyfrau, sef *Llawfer*, *Ystyr Bedydd*, *Adroddiad* (1875) yn cynnwys manylion am y Wladfa i ddenu ymfudwyr, *Y Cymro: Llawlyfr y Wladfa* (1881), ac *Atodiad i'r Cymro* (1882).

## Awdur

**Y Parchedig Richard Bryn Williams**, (1902 - 1981)

## Ffynonellau


*NLW MSS* 2381-2407, 4611-9

R. Bryn Williams, *Cymry Patagonia* (Aberystwyth 1942)

R. Bryn Williams, *Rhyddiaith y Wladfa* (Dinbych 1949)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732888


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu